WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyhoeddwyd: Mehefin 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 315A2014



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry, Samantha Spruce a Tim Buckle o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai gwelliannau, megis ym meysydd Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Diogelwch Cymunedol ond erys heriau penodol o ran Gwasanaethau Plant 7

Mae'r Cyngor yn cymryd camau priodol i wella ei allu i werthuso ei berfformiad ei hun 14

Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn newid ei drefniadau ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliant er mwyn ateb yr heriau sy'n ei wynebu 18

Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau priodol i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 22

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 23

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Gastell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 24

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 26

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 29

# Adroddiad cryno

## Cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a hefyd waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, ei waith i gynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14 a, chan ystyried y rhain, daw i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Nodwyd gennym, yn 2012-13, fod y Cyngor wedi gwneud rhai gwelliannau ym meysydd Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Diogelwch Cymunedol ond erys heriau penodol o ran Gwasanaethau Plant:

- mae safon perfformiad y Cyngor ar draws amrywiaeth o wasanaethau yn ddarlun cymysg o welliant a dirywiad: gan gynnwys gwelliannau ym maes Addysg ond gostyngiad o ran lefel perfformiad mewn rhai agweddau ar wasanaethau Plant a Phobl Ifanc;
- mae adroddiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi amlygu gwelliant mewn gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ac oedolion sy'n agored i niwed, ond nid yw cynnydd o ran Gwasanaethau Plant wedi arwain at welliant cyson mewn perfformiad ac ansawdd o ran cynllunio a darparu Gwasanaethau Plant eto;
- mae gweithgarwch Diogelwch Cymunedol yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o gyflawni amcanion gwella ehangach y Cyngor, ond nid oes gan y Cyngor drefniadau goruchwylio strategol ar waith eto i'w alluogi i gynllunio ar gyfer y newidiadau sy'n wynebu gwasanaethau;
- mae perfformiad y Cyngor o ran gweinyddu budd-dal tai yn siomedig o gymharu â'r cynnydd a wnaed y llynedd;
- mae'r Cyngor wrthi'n gweithredu ar ein cynnig ar gyfer gwella i roi system arfarnu perfformiad staff gyson ar waith;
- nododd Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) fod y Cyngor wedi paratoi cynllun gweithredu i roi ei Gynllun Iaith Gymraeg ar waith a nodi safonau arfer; a
- nododd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod gostyngiad bach yn nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor.

3 Yn ogystal, nodwyd y canlynol: mae'r Cyngor yn cymryd camau priodol i wella ei allu i werthuso ei berfformiad ei hun:

- cyhoeddwyd adroddiad perfformiad y Cyngor ar amser, mae'n rhoi darlun cytbwys o ran cynnydd ac yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau rheoli perfformiad ac yn mynd i'r afael â dull gweithredu anghyson a fabwysiadwyd gan ei wasanaethau, sydd wedi'i gwneud hi'n anodd gwerthuso cynnydd yn llawn; a
- chydymffurfiodd y Cyngor â gofynion adrodd ariannol ac mae'n rheoli ei fwlch ariannu yn rhagweithiol.

4 Yn olaf, cafwyd, yn ystod 2013-14, fod y Cyngor yn adolygu ac yn newid ei drefniadau ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliant er mwyn ymdopi â'r heriau a wynebir:

- mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2013-14 yn ymgorffori'r rhan fwyaf o'r elfennau a argymhellwyd o ganllawiau Llywodraeth Cymru;
- mae'r Cyngor yn gobeithio datblygu ei drefniadau craffu ymhellach;
- mae'r Cyngor yn datblygu strategaethau arbedion ac yn canolbwyntio ei adnoddau ar gyflawni ei flaenoriaethau allweddol; ac
- mae'r Cyngor yn mireinio ei drefniadau rheoli perfformiad ac adrodd.

5 Yn seiliedig ar y casgliadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn, mae Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) ar gyfer 2014-15.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan y Mesur, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), AGGCC a'r Comisiynydd, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, noda'r adroddiad gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran p'un a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

7 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

# Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai gwelliannau, megis ym meysydd Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Diogelwch Cymunedol ond erys heriau penodol o ran Gwasanaethau Plant

## Cymysg fu perfformiad y Cyngor, gyda gwelliannau ym maes Addysg ond gostyngiad o ran lefel perfformiad mewn rhai agweddau ar Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc

10 Defnyddir Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSCau) i fesur perfformiad awdurdodau lleol yn genedlaethol a chanolbwyntio ar flaenoriaethau strategol cenedlaethol allweddol o gymharu â'r llynedd. Dangosodd data ar gyfer 2012-13 ar berfformiad y Cyngor ar draws nifer o wasanaethau fod bron 43 y cant o'r 30 o ddangosyddion strategol cenedlaethol wedi gwella ond bod 26 y cant wedi gwaethygu. Mae Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn gyfres fach o ddangosyddion 'sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau', sy'n adlewyrchu'r agweddau hynny ar waith awdurdodau lleol y mae awdurdodau lleol yn cytuno yr ystyrir eu bod yn bwysig o ran atebolrwydd cyhoeddus. O'r 14 o fesurau atebolrwydd cyhoeddus y Cyngor, mae 50 y cant wedi gwella, tra bod 28 y cant wedi gwaethygu.

11 Yn ôl dadansoddiad y Cyngor ei hun, mae perfformiad wedi gwella neu mae wedi'i gynnal mewn 65 o'i ddangosyddion strategol cenedlaethol/mesurau atebolrwydd cyhoeddus yn ystod 2012-13. Mae hyn yn ddirywiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Cyngor yn priodoli'r dirywiad hwn yn bennaf i'r gostyngiad o ran lefel perfformiad rhai o'r mesurau sy'n ymwneud â Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Er enghraifft, bu cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal â mwy na thri lleoliad yn ystod y flwyddyn – sy'n gynnydd o 6.7 y cant i 8.7 y cant; hefyd, bu'n rhaid i fwy o blant sy'n derbyn gofal newid ysgol unwaith neu fwy – sy'n gynnydd o 10.4 y cant i 15.8 y cant.

12 Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae'r Cyngor hefyd yn nodi, o'r 11 o ddangosyddion strategol cenedlaethol/mesurau atebolrwydd cyhoeddus sy'n ymwneud ag Addysg, fod 10 wedi gwella a bod un wedi cyflawni'r perfformiad gorau posibl. Er enghraifft, mae nifer y disgyblion sy'n cyflawni Cyfnod Allweddol 2 wedi cynyddu o 77.4 y cant i 80.6 y cant. Hefyd, cyrhaeddodd canran y plant ag anghenion addysgol arbennig y cyflwynwyd datganiadau terfynol iddynt 100 y cant.

## Mae adroddiadau Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi amlygu gwelliant mewn gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ac oedolion sy'n agored i niwed, ond nid yw'r cynnydd o ran Gwasanaethau Plant wedi arwain at welliant cyson mewn perfformiad ac ansawdd o ran cynllunio a darparu Gwasanaethau Plant hyd yma

**Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn nodi bod y Cyngor yn graddol wella gwasanaethau i bobl hŷn ac oedolion sy'n agored i niwed ond mae perfformiad yn parhau'n is na chyfartaledd Cymru mewn rhai meysydd**

13 Mae AGGCC yn rheoleiddio gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch ansawdd ac argaeledd gofal cymdeithasol yng Nghymru ac yn helpu i ddiogelu oedolion a phlant, gan sicrhau y diogelir eu hawliau.

14 Yn ei *Adolygiad Blynyddol a'i Werthusiad o Berfformiad ar gyfer 2012/2013*, noda AGGCC fod Gwasanaethau Oedolion y Cyngor wedi gwneud cynnydd cyson. Ceir copi o Adolygiad Blynyddol AGGCC yn: www.cssiw.org.uk/docs/cssiw/report/140131npten.pdf.

15 Mae'r Cyngor wedi cynnwys y meysydd ar gyfer datblygu o fewn Gwasanaethau i Oedolion a argymhellwyd gan AGGCC yn ei amcanion gwella ei hun. Hyd yma, mae cynnydd da yn cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Mae'r Cyngor wedi darparu tystiolaeth o welliannau mewn perfformiad o fewn Gwasanaethau Oedolion ar draws ystod o ddangosyddion a mesurau perfformiad allweddol:

- am yr ail flwyddyn yn olynol, gwelwyd gostyngiad yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ac mae yn yr 16eg safle ymhlith y 22 o awdurdodau;
- mae canran y bobl hŷn sy'n cael cymorth yn y gymuned wedi cynyddu i 99.98 y cant, gan gyflawni targed blynyddol y Cyngor ac mae bellach yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 79.4 y cant; a
- rhoddodd y Cyngor gymorth i 149 yn fwy o bobl yn ystod 2012-13 o gymharu â 2011-12 ac, felly rhagorodd ar ei dargedau.

16 Fodd bynnag, mae perfformiad yn parhau'n is na chyfartaledd Cymru mewn rhai meysydd; er enghraifft, ni lwyddwyd i gynnal perfformiad o ran canran y cleientiaid dros 65 oed a gafodd gymorth yn ystod y flwyddyn ac mae'r Cyngor bellach islaw cyfartaledd Cymru ac mae yn yr 20fed safle (ymhlith y 22 o gynghorau) yng Nghymru.

**Daeth Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r casgliad, er bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran gwella ei Wasanaethau Plant, nad yw hyn wedi arwain at welliant cyson mewn perfformiad ac ansawdd o ran cynllunio a darparu Gwasanaethau Plant eto**

17 Ym mis Tachwedd 2012, gwnaed Gwasanaethau Plant y Cyngor yn destun protocol pryderon difrifol AGGCC. Ers mis Tachwedd 2012, mae AGGCC wedi bod yn cynnal ymweliadau monitro chwarterol er mwyn gwerthuso a oedd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r problemau a arweiniodd at y protocol. Arolygwyd y gwasanaeth ym mis Tachwedd 2013 a chyhoeddwyd yr adroddiad dilynol gan AGGCC ym mis Ionawr 2014.

18 Mae AGGCC yn cydnabod, er bod cryn ymdrech a buddsoddiad wedi'i wneud er mwyn sicrhau gwelliant byrdymor, ei bod yn pryderu ynghylch a yw'r dull gweithredu sydd wedi'i fabwysiadu a'r adnoddau sy'n cael eu darparu yn ddigon i sicrhau gwelliant cynaliadwy yn y tymor hwy. Mae'r arafwch wrth sicrhau gwelliant yn arwain at gostau uwch o gymharu â gwariant ar Wasanaethau Plant mewn cynghorau tebyg eraill.

19 Yn 2012-13, roedd wyth o'r 12 dangosydd cymaradwy yn is na chyfartaledd Cymru. Mae'r Cyngor yn nodi, ar gyfer 2013-14, fod perfformiad wedi gwella a bod naw o'r 12 dangosydd yn uwch na chyfartaledd Cymru.

20 I gloi, mae AGGCC yn nodi ei bod yn amlwg bod y Cyngor yn gwneud cynnydd ar y cyfan o ran rhoi'r cynllun gwella strategol ar waith, a luniwyd o ganlyniad i'r 'protocol pryderon difrifol'. 'Fodd bynnag, er gwaetha'r gwaith sylweddol sydd wedi ei wneud, nid yw hyn wedi arwain hyd yma at welliant cyson mewn perfformiad ac ansawdd o ran cynllunio a chyflwyno Gwasanaethau i Blant. Buddsoddwyd ymdrech sylweddol ac adnoddau ychwanegol, gan gynnwys cymorth adnoddau dynol gwerthfawr, yn strategaeth y gweithlu ac mae hyn wedi arwain at leihad sylweddol mewn swyddi gwag a salwch tymor hir. Mae'n hollbwysig bod gan yr awdurdod lleol weithlu sefydlog, cymwys a chadarn i gyflwyno gwasanaethau diogel ac effeithiol i blant a theuluoedd. Cyflawnwyd gweithlu sefydlog yn ddiweddar, ond mae'r sefydlogrwydd hwnnw'n dal yn fregus iawn ac mae angen gwneud rhagor o waith i'w gynnal.' Ceir adroddiad llawn AGGCC yn: http://cssiw.org.uk/our-reports/local-authority-report/2013/140131npt-child-services-inspection/?lang=cy.

## Mae gweithgarwch diogelwch cymunedol yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o gyflawni amcanion gwella ehangach y Cyngor, ond nid oes gan y Cyngor drefniadau goruchwylio strategol ar waith eto i'w alluogi i gynllunio ar gyfer y newidiadau sy'n wynebu gwasanaethau

21 Ers gweithredu Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yng Nghymru a Lloegr, bu dealltwriaeth gyffredinol bod angen i weithgarwch Diogelwch Cymunedol gael ei gomisiynu a'i reoli'n strategol gan bartneriaeth leol.

22 Yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Partneriaeth Castell-nedd Port Talbot Diogelach (SNPTP) sy'n gyfrifol am gyflawni amcanion allweddol yng Nghynllun Integredig Sengl yr ardal ar gyfer 2013-14, er mwyn sicrhau bod pobl Castell-nedd Port Talbot yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn ddiogel'. Mae Diogelwch Cymunedol yn un o'r blaenoriaethau allweddol yng Nghynllun Cymunedol y Cyngor ei hun ar gyfer 2005-2015 ac, yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-2016 a gyhoeddwyd yn ddiweddar, mae'r Cyngor hefyd yn cyfeirio at yr amcan hwn ac yn cydnabod ei gyfraniad tuag at ei gyflawni.

23 Bydd newidiadau mawr yn effeithio ar y ffordd y caiff gweithgarwch Diogelwch Cymunedol ei gynllunio a'i gyflawni. Maent yn cynnwys effaith ethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ledled Cymru a rhaglen ranbartholi Llywodraeth Cymru, sy'n annog cynghorau a phartneriaid i gydweithio'n agosach er mwyn sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd. Arweiniodd yr

amgylchedd hwn sy'n newid at y Cyngor yn gofyn i Swyddfa Archwilio Cyngor adolygu trefniadau Diogelwch Cymunedol lleol. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar nodi a yw'r Cyngor mewn sefyllfa dda i reoli'r newidiadau i strwythurau Diogelwch Cymunedol.

24 Nododd ein hadolygiad fod gweithgarwch Diogelwch Cymunedol yn cyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o gyflawni amcanion gwella ehangach y Cyngor, ond nid oes gan y Cyngor drefniadau goruchwylio strategol ar waith eto ar gyfer yr ystod lawn o weithgareddau i'w alluogi i gynllunio ar gyfer y newidiadau sy'n wynebu gwasanaethau. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Er bod SNPTP wedi cyflawni swyddogaeth strategol yn briodol, golyga'r trefniadau presennol fod aelodau etholedig y Cyngor wedi chwarae rôl strategol gyfyngedig o ran cynllunio gweithgarwch Diogelwch Cymunedol. Mae rôl fwy pendant yn bwysig o gofio bod gweithrediadau wedi'u rhesymoli a'r ffaith bod Diogelwch Cymunedol yn dibynnu ar arian allanol o amrywiaeth o ffynonellau, sy'n aml yn arian byrdymor ac sydd, felly, yn peri anawsterau o ran blaengynllunio.

- Cafwyd llwyddiannau o ran cyflawni gweithgarwch Diogelwch Cymunedol yn weithredol. Mae'r Tîm Troseddau Ieuenctid wedi cael cryn lwyddiant, ar ôl helpu i ostwng troseddu ymhlith ieuenctid yn ardal Castell-nedd Port Talbot yn sylweddol. Hefyd, mae newidiadau i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid ar draws ffiniau Cynghorau a systemau cyflawni yn cael eu cynllunio er mwyn paratoi ar gyfer datblygiadau arfaethedig o ran gweithio rhanbarthol. Mae darparwyr gwasanaethau Cam-drin Domestig yn gwella trefniadau llywodraethu er mwyn helpu i baratoi ar gyfer newid. Mae'r darparwyr yn wynebu addasiadau sylweddol i strwythurau ariannu a chyflawni, ynghyd â'r angen i wella gwasanaethau drwy atgyfnerthu cysylltiadau â'r heddlu a Gwasanaethau Cymdeithasol yr Heddlu.

- Nid oes gan y Cyngor ei strategaeth ei hun ar gyfer rheoli newid strwythurol yn y dyfodol a fydd yn effeithio ar weithgarwch Diogelwch Cymunedol. Er bod cyfrifoldebau am agweddau unigol ar Ddiogelwch Cymunedol o fewn y Cyngor yn glir, nid oes unrhyw drefniadau ar waith er mwyn sicrhau prosesau goruchwylio a chynllunio strategol ar lefel aelodau. At hynny, mae effaith bosibl trefniadau rhanbarthol ar gyfer cyflawni rhai meysydd o wasanaethau Diogelwch Cymunedol yn aneglur.

- Ac, yn olaf, nid yw'n glir sut y bydd y Cyngor yn ceisio dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i wella perfformiad o ran rheoli gwastraff

25 Datgelodd adolygiad gan y Cyngor o'i berfformiad o ran ailgylchu, compostio ac ailddefnyddio gwastraff tua diwedd 2012-13 na fyddai'r targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 52 y cant, yn cael ei gyflawni. Y ffigur ar gyfer alldro yn 2012-13 oedd 48.33 y cant. Roedd hyn yn golygu bod y Cyngor yn agored i gael ei ddirwyo gan Lywodraeth Cymru. Mewn ymateb, nododd y Cyngor fod gwastraff yn un o'i chwe blaenoriaeth yng Nghynllun Gwella Corfforaethol 2014-2017 a diwygiodd ei Strategaeth Gwastraff Trefol i gynyddu lefelau ailgylchu, compostio ac ailddefnyddio ym mis Mawrth i'w weithredu ar unwaith. Roedd y mesurau a gyflwynwyd yn cynnwys buddsoddiad sylweddol i ailfodelu'r gwasanaeth gan gynnwys cyflwyno biniau ag olwynion llai o faint a gwnaethant arwain at welliant rhagolygol mewn perfformiad i 54.01 y cant ar gyfer 2013-14.

## Mae perfformiad y Cyngor o ran gweinyddu budd-dal tai yn siomedig o gymharu â'r cynnydd a wnaed y llynedd

26 Gwnaethom adolygu'r prosesau a ddefnyddir gan gynghorau yng Nghymru i weinyddu budd-dal tai. O fewn y Cyngor, nodwyd gennym fod nifer yr ymgeiswyr wedi lleihau tua un y cant i ychydig dros 20,170 o hawlwyr ym mis Chwefror 2013. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o dri y cant yn y cyfartaledd cenedlaethol.

27 Y llynedd, nodwyd bod perfformiad y Cyngor o ran prosesu budd-dal tai wedi gwella. Fodd bynnag, eleni nodwyd gennym fod perfformiad y Cyngor yn siomedig, er enghraifft:

- Mae'r amser cyfartalog a gymerir gan y Cyngor i brosesu hawliadau newydd yn 2012-13 wedi cynyddu ychydig o 16 diwrnod yn 2011-12 i 17 diwrnod yn 2012-13. Erys hyn yn sylweddol well na chyfartaledd Cymru, sef 20 diwrnod yn 2012-13.
- Yr amser cyfartalog a gymerir gan y Cyngor i brosesu newidiadau mewn amgylchiadau oedd 12 diwrnod yn 2011-2012 a 16 diwrnod yn 2012-13. Mae hyn yn llawer gwaeth na chyfartaledd Cymru, sef chwe diwrnod yn 2012-13.
- Gostyngodd lefel y gordaliadau a adenillwyd gan hawlwyr o 86 y cant yn 2011-12 i 68 y cant yn 2012-13. Roedd hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 73 y cant yn 2012-13.
- Mae lefel y gordaliadau 'o flynyddoedd blaenorol' a adenillwyd wedi aros yn ddigyfnewid, sef 25 y cant yn 2011-12 a 2012-13. Unwaith eto, mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 32 y cant yn 2012-13.

28 Fodd bynnag, ar nodyn mwy cadarnhaol, rydym hefyd yn nodi'r canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi cynnal lefel gymharol uchel o berfformiad o ran canran yr hawliadau newydd y penderfynir arnynt o fewn 14 diwrnod, sef 91 y cant 2011-12 a 2012-13. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru, sef 88 y cant yn 2012-13.
- Mae cywirdeb o ran prosesu hawliadau yn parhau ar 100 y cant ar gyfer 2011-12 a 2012-13. Mae hyn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 94 y cant yn 2012-13.
- Mae nifer yr apeliadau a dderbynnir gan y Cyngor wedi lleihau o 17 yn 2011-12 i 11 yn 2012-13. Mae'r Cyngor yn dal i gymryd 21 diwrnod i brosesu apeliadau yn 2011-12 a 2012-13. Fodd bynnag, mae hyn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 38 diwrnod yn 2012-13. Canran yr apeliadau a gyflwynwyd i'r Gwasanaeth Apeliadau o fewn pedair wythnos yw 100 y cant yn 2012-13 ac mae'n gyson â blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn sylweddol well na chyfartaledd Cymru, sef 51 y cant yn 2012-13.

## Mae'r Cyngor wrthi'n gweithredu ar ein cynnig ar gyfer gwella i roi system arfarnu perfformiad staff gyson ar waith

29 Yn 2011, gwnaethom argymell y dylai'r Cyngor fabwysiadu system gadarn a chyson ar gyfer monitro ac arfarnu perfformiad ei staff.

30 Ers hynny, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o'i drefniadau rheoli perfformiad a gwblhawyd yn 2013-14. Cynorthwywyd yr adolygiad gan 'gyfaill beirniadol' allanol, a ariannwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

31 Mae'r Cyngor wrthi bellach yn rhoi fframwaith arfarnu perfformiad newydd ar waith ar gyfer ei brif swyddogion a'i benaethiaid gwasanaethau. Mae'r Cyngor hefyd yn gorfodi'r defnydd o'i system arfarnu perfformiad corfforaethol ragflaenol ar gyfer pob aelod arall o staff gyda phwyslais cryf ar gwblhau adolygiadau o ddatblygiad cyflogeion. Byddwn yn adolygu cynnydd y Cyngor fel rhan o'n Hasesiad Corfforaethol arfaethedig.

## Nododd Comisiynydd y Gymraeg fod y Cyngor wedi paratoi cynllun gweithredu i roi ei Gynllun Iaith Gymraeg ar waith a nodi safonau arfer

32 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

33 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae'n rhaid i bob cyngor ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith.

34 Mae'r Cyngor wedi paratoi cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod er mwyn gweithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg a nodi safonau arfer. Bydd y cynllun gweithredu yn datblygu polisi golygyddol a phroses i helpu gwefan y Cyngor i gydymffurfio â'r Cynllun Iaith. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried yr angen i gyflwyno mwy o wasanaethau Cymraeg ar-lein. Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd camau i weithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg fel rhan o'i asesiadau effaith, wrth iddo ystyried newidiadau i'w gyllidebau a'i wasanaethau.

## Mae'r Cyngor yn cymryd camau priodol i wella ei allu i werthuso ei berfformiad ei hun

35 Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad ar ei berfformiad yn 2012-13, erbyn 31 Hydref 2013; gellir gweld copi ar wefan y Cyngor gan ddefnyddio'r cyfeiriad canlynol: www.npt.gov.uk/default.aspx?page=7668.

36 Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth ac wedi cyhoeddi canllawiau y mae'n rhaid i bob cyngor eu dilyn wrth gyhoeddi gwybodaeth o'r fath. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac wedi dilyn y canllawiau; mae'n rhaid iddo gyhoeddi ei gasgliadau hefyd.

37 Er mwyn galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i ddod i gasgliad terfynol, rydym yn cynnal asesiad o adroddiad y Cyngor ac yn profi sampl o'r datganiadau a wnaed a'r data a ddefnyddiwyd gan y Cyngor. Mae'r asesiad hwn yn penderfynu a yw'r adroddiad yn rhoi darlun teg a chytbwys o berfformiad y Cyngor. Yn yr adran hon, rydym yn nodi'r casgliadau sy'n deillio o'n hasesiad ac yn rhoi darlun o'r ffordd y mae'r Cyngor yn gwerthuso ei berfformiad.

### Cyhoeddwyd adroddiad perfformiad y Cyngor ar amser ac mae'n rhoi darlun cytbwys o ran cynnydd ac yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru

38 Cymeradwyodd a chyhoeddodd y Cyngor ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2012-13 (yr Adroddiad) cyn y terfyn amser statudol, sef 31 Hydref 2013. Cafwyd bod yr Adroddiad yn gwbl ddealladwy a'i fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg i'r cyhoedd ei lawrlwytho o wefan y Cyngor. Gellir darparu'r Adroddiad ar ffurf copi caled ar gais; ac mae crynodeb dwyieithog o'r Adroddiad wedi'i lunio sydd wedi'i gylchredeg rhwng gwahanol leoliadau sy'n eiddo i'r cyngor. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r Cyngor gyhoeddi'n glir fod yr Adroddiad ar gael i'r cyhoedd.

39 Daethom i'r casgliad hefyd fod yr Adroddiad yn cynnal darlun cytbwys o berfformiad yn y cyfnod 2012-13. Gwnaed hyn drwy dynnu sylw at berfformiad llai ffafriol a pherfformiad a oedd yn gwella; gan gymharu ei berfformiad presennol â blynyddoedd blaenorol a chyfartaledd cenedlaethol Cymru a'i safle yn chwarteli Cymru. Rhoddodd hefyd ryw syniad o'r cyfeiriad teithio o ran gwelliant a nododd feysydd a oedd yn peri pryder.

40 Ymatebodd yr Adroddiad i'n sylwadau yn llythyr y llynedd drwy ehangu'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu ei asesiad o berfformiad:

- defnyddio astudiaethau achos a data boddhad cwsmeriaid i adlewyrchu profiadau defnyddwyr gwasanaethau;

- cyfeirio at wybodaeth ariannol o ran lefelau gwariant a buddsoddiad; ac
- esbonio'r rhesymeg dros gydweithredu, gan gynnwys enghreifftiau o weithgarwch cydweithredol sy'n helpu i gyflawni blaenoriaethau gwella.

41 Fodd bynnag, câi'r negeseuon eu hatgyfnerthu pe bai'r Cyngor yn esbonio'n gyson p'un a yw trefniadau cydweithredu a phartneriaethau wedi cyflawni eu canlyniadau bwriadedig.

## Mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau rheoli perfformiad ac yn mynd i'r afael â dull gweithredu anghyson a fabwysiadwyd gan ei wasanaethau, sydd wedi'i gwneud hi'n anodd gwerthuso cynnydd yn llawn

42 Cynhaliwyd cyfres o adolygiadau byr er mwyn profi dulliau gweithredu a fabwysiadwyd at ddibenion rheoli perfformiad mewn detholiad o wasanaethau a phrosiectau er mwyn gwerthuso eu hansawdd. Lluniwyd y detholiad hwn er mwyn adlewyrchu trawstoriad o amcanion gwella'r Cyngor. Canolbwyntiwyd ar y canlynol:

- Mae Economi Gryf a Ffyniannus yn Helpu i Leihau Tlodi (prosiect Gweithffyrdd)
- Gwella Tai (Digartrefedd)
- Gwella ac Adfywio'r Amgylchedd – Cyfleusterau Cymunedol Pwysig (Hamdden)
- Gwella Gwasanaethau i Bobl Hŷn a Gofal Preswyl Oedolion sy'n Agored i Niwed

43 O'r adolygiadau hyn, daethom i'r casgliad bod amrywiaeth o systemau gwahanol ar waith er mwyn rheoli a chofnodi gwybodaeth am berfformiad. Mae'r rhain i'w priodoli i uchelgais y Cyngor i ddatblygu ei drefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau drwy ddarparwyr allanol a gwella dulliau rheoli megis adolygiadau 'Systemau Darbodus'.

44 Mae dull anghyson y Cyngor o reoli perfformiad wedi'i gwneud hi'n anodd gwerthuso cynnydd yn llawn. Mae gallu gwasanaethau'r Cyngor i werthuso eu hunain ac wedyn herio eu perfformiad eu hunain, dadansoddi'r rhesymau dros eu llwyddiannau – neu eu methiannau – a defnyddio'r gwersi a ddysgwyd er mwyn gwella'r ffordd y darperir gwasanaethau yn elfen bwysig o'r fath drefniadau.

45 Mewn rhai achosion, gellid gwella prosesau adrodd ac ymgymryd â mwy o waith gwerthuso er mwyn sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa well i asesu effaith y trefniadau hyn o ran sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwella ansawdd gwasanaethau.

46 Roedd ein prif ganfyddiadau a chasgliadau fel a ganlyn:

- Mae Gweithffyrdd yn brosiect rhanbarthol a ariennir gan Gronfa Strategol Ewrop ac a arweinir gan Adran Datblygu Economaidd y Cyngor, sydd hefyd yn rheoli perfformiad y prosiect yn rhanbarthol. Nodwyd gennym fod systemau cadarn ac effeithiol ar waith i gasglu a dilysu gwybodaeth a data; monitro a gwerthuso perfformiad y prosiect; a nodi'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni. At hynny, cyflwynir

adroddiadau rheolaidd i gyfres o grwpiau rheoli, gyda gwaith herio a chraffu yn cael ei gyflawni gan aelodau o'r cyngor a rheoleiddwyr allanol.

- Mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi mabwysiadu egwyddorion 'Systemau Darbodus' er mwyn gwella perfformiad. Mae wedi datblygu trefniadau gwaith gwell megis rhoi dull siop un stop ar waith ar gyfer delio â galwadau ffôn ac wedi arbed amser swyddogion. Mae'r cyfrifoldeb dros reoli perfformiad wedi'i ddatganoli i'r gwasanaeth ond nid yw'n cofnodi gwybodaeth am ei berfformiad. Er nad oes unrhyw system arfarnu perfformiad corfforaethol ar waith, ymdrinnir â materion perfformiad ar unwaith oherwydd mae gan y gwasanaeth gryn dipyn o ddata a chynhelir sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd un i un yn rheolaidd. Nid oes unrhyw dargedau sy'n adlewyrchu pa mor dda y disgwylir i'r gwasanaeth berfformio oherwydd y gyllideb a'r amgylchedd y mae'n gweithio o'u mewn ac nid oes ganddo unrhyw safle yng Nghymru.

- Mae Ymddiriedolaeth Hamdden Celtic (YHC) yn sefydliad  annibynnol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Cyngor er mwyn rheoli canolfannau hamdden a lleoliadau diwylliannol eraill yn y fwrdeistref sirol. Mae YHC yn cael ffi reoli am ddarparu'r gwasanaeth hwn ond daw'r rhan fwyaf o'r incwm a gynhyrchir o gwsmeriaid sy'n talu. Mae amserlen Bwrdd YHC ar gyfer cyflwyno gwybodaeth reolaidd am berfformiad yn canolbwyntio ar leihau gwariant a chynyddu cyfranogiad. Mae dull hierarchaidd a thîm wedi'i fabwysiadu ar gyfer rheoli perfformiad yn YHC a pherchenogaeth glir o dargedau. Mae'r aelod o'r cabinet ar gyfer Bwrdd y Cabinet Economaidd ac Adfywio Cymunedol yn aelod o Fwrdd YHC. Mae un o swyddogion y Cyngor yn gyfrifol am goladu data perfformiad YHC mewn fformat a gymeradwyir gan y Cyngor. Ar adeg yr archwiliad, nid oedd unrhyw adroddiadau manwl ar berfformiad YHC wedi'u cyflwyno i/cyfeirio at gabinet/byrddau perthnasol y Cyngor, er bod yr adroddiadau ar gael ar wefan YHC.

- Cyflwynir gwybodaeth am berfformiad cartrefi preswyl i'r Cabinet ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adroddiadau yn trefnu gwybodaeth am berfformiad i bum categori: preswylwyr; staffio; deiliadaeth; cofrestru; a chwynion. Mae cynrychiolwyr Gwalia o'r ochr gofal a'r ochr adeiladu yn cael eu gwahodd yn rheolaidd i fynychu cyfarfodydd craffu er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ac ymateb i unrhyw gwestiynau. Nododd aelodau nad oeddent wedi cael y fath wybodaeth fanwl am berfformiad o'r blaen er na châi pwyllgorau craffu ddata perfformiad a data ariannol gyda'i gilydd er mwyn gwella eu gallu i fesur gwelliant ymhellach. Mae'r trosolwg o'r cylch rheoli perfformiad yn cyfeirio at dri math o weithgarwch gan gynnwys: cyflwyno gwybodaeth reoli gan Gwalia a dderbynnir yn fisol; cyfarfodydd adolygu perfformiad a gynhelir yn fisol rhwng Rheolwr Perfformiad y Cyngor a'r

Cyd-Grŵp Gweithredol; a hapwiriadau o safleoedd/ymweliadau monitro â safleoedd. Nid oedd yr hapwiriadau o safleoedd wedi'u cynnal.

47 Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen cyflwyno dull mwy cadarn a chyson o reoli perfformiad ac wedi buddsoddi amser ac adnoddau i geisio ffyrdd o ddatblygu ffordd fwy cynhwysfawr a phenodol o asesu ei gynnydd. Yn ddiweddar, cwblhaodd adolygiad mawr o'i ddull rheoli perfformiad, gyda'r nod o wella ei drefniadau llywodraethu a'i allu i hunanwerthuso.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â gofynion adrodd ariannol ac mae'n rheoli ei fwlch ariannu yn rhagweithiol

48 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i oruchwylio cyfrifon y Cyngor ei farn yn ddiweddar, sef bod y datganiadau ariannol yn foddhaol ar y cyfan a'u bod yn 'rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor'.

49 Ni chodwyd fawr ddim pryderon ynghylch yr agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol y Cyngor. At hynny, ni ddaethpwyd ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad ac ni thrafodwyd ac ni hysbyswyr y rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y byddai angen hysbysu'r Pwyllgor Archwilio amdanynt.

50 Nododd yr Archwilydd Penodedig hefyd fod y Cyngor wedi bod yn rhagweithiol wrth reoli ei fwlch ariannu cynyddol hyd yma ac wedi cydnabod bod angen iddo ystyried newidiadau sylfaenol tymor hwy i'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn darparu ei wasanaethau. Yn y dyfodol, bydd i'r sefyllfa ariannol heriol iawn sy'n wynebu pob corff llywodraeth leol yng Nghymru oblygiadau sylweddol. Yn sgil y setliad cyllidebol diweddar mae'r bwlch cyllidebol o £22.6 miliwn a nodwyd yn flaenorol ar gyfer 2014-2018 wedi cynyddu i £38.3 miliwn, gyda £17.3 miliwn o'r arbedion hyn yn gorfod cael eu gwneud yn 2014-15.

51 Ar y cyfan, roedd yr Archwilydd Penodedig yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith ond mae meysydd lle y gellir gwneud gwelliannau. Caiff cynnydd yn y meysydd ei fonitro yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae llythyr yr Archwilydd Penodedig i'w weld yn Atodiad 3 ac yn rhoi mwy o fanylion.

# Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn newid ei drefniadau ar gyfer cynllunio a chefnogi gwelliant er mwyn ateb yr heriau sy'n ei wynebu

## Mae Cynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2013-16 yn ymgorffori'r rhan fwyaf o'r elfennau a argymhellwyd o ganllawiau Llywodraeth Cymru

52 Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2013-2016 (y Cynllun) ym mis Mai 2013. Mae'r Cynllun yn cynnwys chwe amcan gwella y mae'n anelu at eu cyflawni dros y pedair blynedd nesaf a rhesymeg gyffredinol dros eu dewis. Mae'r Cyngor wedi lleihau nifer ei flaenoriaethau yn sylweddol o 10 i chwech, gan ystyried yr angen i ganolbwyntio ei adnoddau yn ystod y cyfnod hwn o heriau ariannol cynyddol (gweler Atodiad 4 am fanylion).

53 Er bod y Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, mae rhai canllawiau y dylid eu hystyried ymhellach. Byddai'r Cynllun yn cael budd o fwy o fanylion, megis:

- cerrig milltir cliriach a mesurau llwyddiant priodol;
- gwybodaeth fanylach sy'n esbonio pam y dewiswyd amcanion gwella;
- mwy o wybodaeth am y broses ymgynghori, y rhai y cysylltwyd â hwy, beth oedd eu hymatebion a sut yr ymatebodd y Cyngor; a
- sut y dylanwadodd gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb ar brosesau gwneud penderfyniadau.

## Mae'r Cyngor yn gobeithio datblygu ei drefniadau craffu ymhellach

54 Rhwng mis Tachwedd 2012 a mis Ebrill 2013, cymerodd rhai aelodau etholedig a swyddog craffu o'r Cyngor ran mewn prosiect Cyfnewid Dysgu ym maes Craffu, a hwyluswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

55 Roedd y prosiect hwn yn cynnwys ymweliadau gan aelodau a swyddogion o awdurdodau cyfagos i arsylwi cyfarfodydd craffu'r Cyngor a rhoi adborth. Yn eu tro, aeth aelodau a swyddog craffu'r Cyngor i gyfarfodydd pwyllgorau craffu cynghorau eraill er mwyn gweld sut roeddent yn trefnu eu pwyllgorau craffu. Mae'r gwaith cyfranogol hwn wedi rhoi cyfle i'r Cyngor fyfyrio ar ei arferion ei hun a'u datblygu.

56 Mae'r Cyngor yn bwriadu mireinio ei wasanaethau democrataidd, y mae craffu yn elfen bwysig ohonynt, drwy raglen newid. Bydd yn dechrau gyda chynllun peilot gyda'i Bwyllgor Polisi ac Adnoddau a fydd yn cael ei gyflwyno, os bydd yn effeithiol, i brosesau pwyllgorau eraill.

57 At hynny, am fod angen i'r Cyngor ganolbwyntio ar wella Gwasanaethau Plant, gwahoddodd y Ganolfan Craffu Cyhoeddus i gynnal gweithdy er mwyn helpu i ddatblygu ansawdd ac effeithiolrwydd y pwyllgor craffu sy'n gyfrifol am Wasanaethau Plant.

## Mae'r Cyngor yn datblygu strategaethau arbedion ac yn canolbwyntio ei adnoddau ar gyflawni ei flaenoriaethau allweddol

58 Mae'r Cyngor yn ailddatgan ei ymrwymiad i gyflawni ei amcanion gwella drwy gyfeirio ei adnoddau ariannol yn unol â hynny.

59 Mae'r Cyngor yn cydnabod y galw ariannol sy'n deillio o flaenoriaethau allweddol lleol a gwella Gwasanaethau Plant yw un o'i ddwy flaenoriaeth bennaf ar hyn o bryd. Ar gyfer 2014-15 bydd y Cyngor yn buddsoddi £22 miliwn yn ei Wasanaethau i Blant. Bydd y buddsoddiad hwn yn ariannu gweithlu proffesiynol Gwasanaethau Plant, y mae unigolion wedi'u recriwtio iddo dros y 12 mis diwethaf, er mwyn gwella arfer gwaith a galluogi Gwasanaethau Plant i roi gwell cymorth i blant a theuluoedd a sicrhau gwell canlyniadau iddynt.

60 Mae'r Cyngor wedi nodi bod angen dod o hyd i arbedion o £17.3 miliwn yn ystod 2014-15 a £38 miliwn dros y pedair blynedd nesaf. Mae gan y Cyngor gynlluniau ar waith i arbed £9 miliwn ac mae'n parhau i nodi cyfleoedd a chamau gweithredu posibl i arbed £13.55 miliwn arall. Mae'n amlwg y bydd strategaethau arbedion ariannol y Cyngor o dan bwysau aruthrol i wneud iawn am ddiffyg cyllidebol mor fawr â hwn a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd.

61 Mae cydgysylltu effeithiol â'r gweithlu yn rhan allweddol o strategaeth y Cyngor ar gyfer delio â'r her ariannol sy'n ei wynebu. Lluniwyd dau gytundeb gweithlu yn ystod y tair blynedd diweddaf sydd wedi cynnwys y canlynol:

- rhewi cyflog mwy na 7,000 o gyflogeion am dair blynedd;
- cytundeb i ddidynnu hyd at ddau y cant o gyflogau am un flwyddyn a oedd yn seiliedig ar lefelau cyflog ond nad oedd yn cynnwys y gweithwyr â'r cyflogau isaf; a
- lleihau taliadau goramser a thaliadau oriau anghymdeithasol, a chyfradd milltiroedd ceir newydd.

62 Yn fwy diweddar, sicrhaodd y Cyngor gymeradwyaeth ar gyfer y cytundeb gweithlu canlynol a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2014. Ymhlith y prif nodweddion mae'r canlynol:

- cyfraniad at arbedion ariannol gan staff sy'n cytuno i dderbyn hanner eu dyfarniad cyflog tybiannol blynyddol;
- ymdrech o'r newydd i wella lefelau presenoldeb;
- strwythur cyflogau a graddau dros dro diwygiedig i leihau costau'r bil cyflog sy'n deillio o raddau cyflog sy'n gorgyffwrdd a dilyniant cynyddrannol, heblaw am y rhai sydd â'r cyflogau isaf; a
- newidiadau i gynllun parcio staff y Cyngor a thrafodaethau pellach ynghylch goramser a threfniadau gwaith staff.

## Mae'r Cyngor yn mireinio ei drefniadau rheoli perfformiad ac adrodd

63 Mae'r Cyngor yn cydnabod y risgiau a'r heriau allweddol sy'n ei wynebu er mwyn parhau i wella neu o leiaf gynnal ansawdd ei wasanaethau, mewn cyfnod o bwysau ariannol cynyddol. Felly, mae'n rhoi trefniadau ar waith i wella'r modd y caiff ansawdd ei wasanaethau ei fonitro, ei werthuso a'i gofnodi er mwyn sicrhau y caiff unrhyw gamau union eu cymryd yn gyflymach a llywio prosesau gwneud penderfyniadau yn well. Mae hefyd yn gweithio i sicrhau bod llinellau atebolrwydd clir ar waith er mwyn cyflawni ei agenda wella yn effeithiol.

64 Fel y nodwyd uchod, yn ystod 2013-14, cynhaliodd y Cyngor adolygiad eang o'i drefniadau rheoli perfformiad er mwyn atgyfnerthu'r ffordd y mae'n monitro ac yn rheoli perfformiad a sicrhau y caiff unrhyw newidiadau eu mabwysiadu ym mhob rhan o'r sefydliad. Amlygodd canlyniad yr adolygiad yr amrywiaeth o arferion presennol a sut mae angen iddynt newid. Ymhlith yr arferion newydd a gyflwynwyd mae'r canlynol:

- Adroddiadau misol ar y prif bwyntiau ar gyfer pob amcan gwella er mwyn asesu pa gynnydd sy'n cael ei wneud a pha gerrig milltir allweddol sy'n cael eu cyflawni ar wahanol adegau. Bydd y Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn craffu ar yr adroddiadau hyn ar y prif bwyntiau.
- Caiff penderfyniadau polisi pwysig sy'n deillio o'r rhaglen eu gwneud gan y Cabinet llawn yn hytrach na byrddau cabinet gan sicrhau cynrychiolaeth ehangach o'r bwrdd gweithredol a safbwynt mwy cyflawn ar draws portffolios. Caiff materion allweddol a chynnydd prosiectau eu hymgorffori ym mlaenraglenni gwaith pwyllgorau'r Cyngor.
- Atgyfnerthu'r broses graffu drwy fabwysiadu dull gweithredu a fydd yn grymuso cadeirydd y pwyllgor craffu i ddwyn y cabinet i gyfrif.
- Atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth/busnes. Nododd yr adolygiad nad oes gan bob gwasanaeth gynllun busnes ar waith ar hyn o bryd.
- Caiff pob amcan gwella ei ategu gan gyfres o fesurau perfformiad. Caiff systemau data ac adrodd eu haddasu er mwyn sicrhau y caiff data eu cofnodi ar adegau priodol er mwyn galluogi aelodau i barhau i fonitro'r gweithgarwch yn fanwl a nodi a yw'r canlyniadau bwriadedig yn cael eu cyflawni.
- Caiff cofrestrau risg eu datblygu ar gyfer pob amcan gwella yn unol â Pholisi Rheoli Risg y Cyngor, er mwyn nodi materion a heriau allweddol.

- Bydd aelodau'r Cabinet yn cymryd cyfrifoldeb unigol am amcan gwella, gyda chymorth y prif swyddog perthnasol. Yr eithriad i hyn yw'r chweched amcan gwella lle y caiff elfen strategaeth y gweithlu o'r amcan gwella ei harwain gan y Prif Weithredwr a chaiff gweddill gwaith yr amcan gwella ei arwain gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol.

65 Mae'r Cyngor yn monitro cynnydd yn erbyn ei amcanion gwella drwy gyflwyno adroddiad bob chwe mis i'w Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol, a ddilynir gan y Pwyllgor Craffu ar Bolisi ac Adnoddau a phwyllgorau craffu priodol eraill er mwyn darparu her ychwanegol.

66 Ar sail fwy gweithredol, caiff adroddiadau chwarterol eu llunio gan reolwyr gwasanaethau sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am berfformiad gyda chymariaethau â dangosyddion a thargedau lleol a chenedlaethol. O'r adroddiadau hyn, mae'r Cyngor bellach yn gallu tynnu themâu a thueddiadau allweddol - yn gadarnhaol ac yn negyddol - a nodi sut mae gwasanaethau yn cyfrannu at amcanion a blaenoriaethau corfforaethol.

67 Mae'r ddwy broses hyn yn cyfrannu at ddarparu gwybodaeth ar gyfer Asesiad Blynyddol y Cyngor, a gaiff ei goladu a'i ddrafftio gan Dîm Perfformiad Corfforaethol y Cyngor.

68 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yr adolygiad hwn a'r canlyniadau dilynol yn ystod y flwyddyn i ddod.

# Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau priodol i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

69 Yn seiliedig ar y casgliadau a amlinellir yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur ar gyfer 2014-15. Mae hyn i'w briodoli i ymdrechion y Cyngor i barhau i geisio datblygu ei drefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Gastell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £356.30 miliwn y flwyddyn (2013-14), Mae hyn yn cyfateb i tua £2,543.00 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £78.2 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D oedd £1,416.23 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 4.19 y cant i £1,475.59 y flwyddyn ar gyfer 2013-14; mae 90.6 y cant o dai Castell-nedd Port Talbot yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 64 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 3 Aelod Annibynnol
- 8 o Blaid Cymru
- 50 o'r Blaid Lafur
- 1 o Blaid y Democratiaid Cymdeithasol
- 2 Heb Ymlyniad

Steven Phillips yw Prif Weithredwr y Cyngor. Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd: John Flower; Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol: Hywel Jenkins; Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai: Nick Jarman; a Chyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes: Aled Evans.

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros ardal Castell-nedd Port Talbot yw:

- Gwenda Thomas, Castell-nedd, y Blaid Lafur
- David Rees, Aberafan, y Blaid Lafur
- Suzy Davies, Gorllewin De Cymru, Plaid Geidwadol Cymru
- Peter Black, Gorllewin De Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

- Byron Davies, Gorllewin De Cymru, Plaid Geidwadol Cymru
- Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru, Plaid Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros ardal Castell-nedd Port Talbot yw:

- Peter Hain, Castell-nedd, Llafur
- Dr Hywel Francis, Aberafan, Llafur

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor ei hun yn www.npt.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd A L Thomas
Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Ganolfan Ddinesig
Port Talbot
SA13 1PJ

Annwyl Gynghorydd Thomas,

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 26 Medi 2013, a chyflwynir adroddiad manylach ar gyfer swyddogion maes o law.

Mae gwelliannau yn parhau i gael eu gwneud o ran y Datganiad Cyfrifon a phapurau gwaith cysylltiedig, gyda'r gyfarwyddiaeth cyllid a gwasanaethau corfforaethol yn llywio'r gwelliannau hyn. Hefyd, lluniodd y rhan fwyaf o'r cyfarwyddiaethau bapurau gwaith llawer gwell eleni. Mae rhai meysydd o hyd lle mae angen gwneud gwaith pellach, ond mae'r Cyngor eisoes wedi dechrau ar y gwaith hwn a byddwn yn parhau i weithio'n agos â swyddogion drwy ein cyfarfodydd rheolaidd ac ati a bydd y Pwyllgor Archwilio yn sicrhau ein bod yn adeiladu ar y perfformiad gwell hwn.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor  i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith ond mae meysydd lle y gellir gwneud gwelliannau. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau yn 2013-14 pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol y flwyddyn nesaf. Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013, nododd fod y Cyngor yn sicrhau gwelliannau mewn llawer o feysydd ond ei fod yn wynebu heriau penodol o ran gwasanaethau plant ac yn datblygu trefniadau perfformiad yn ystod cyfnod o newid sylweddol. Caiff cynnydd yn y meysydd ei fonitro yn ystod y flwyddyn i ddod.

Yn y dyfodol, bydd i'r sefyllfa ariannol heriol iawn sy'n wynebu pob corff llywodraeth leol yng Nghymru oblygiadau sylweddol. Yn sgil y setliad cyllidebol diweddar mae'r bwlch cyllidebol o £22.6 miliwn a nodwyd yn flaenorol ar gyfer 2014-18 wedi cynyddu i £38.3 miliwn, gyda £17.3 miliwn o'r arbedion hyn yn gorfod cael eu gwneud yn 2014-15.

Mae'r Cyngor wedi bod yn rhagweithiol wrth reoli ei fwlch ariannu cynyddol hyd yma ac wedi cydnabod bod angen iddo ystyried newidiadau sylfaenol tymor hwy i'r ffordd y mae'n gweithredu ac yn darparu ei wasanaethau. Mae'r Cyngor yn sylweddoli y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd. Mae'n bwysig bod y Blaengynllun Ariannol yn cael ei fonitro'n ofalus gan swyddogion ac Aelodau a'i fod wedi'i gysylltu'n glir ag arbedion cyfarwyddiaethau, cynlluniau darparu gwasanaethau ac ati, ac yr ymdrinnir ag unrhyw lithriant yn gyflym ac yn effeithiol er mwyn i dargedau ar gyfer arbedion gael eu cyflawni.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2013.

Oherwydd y gwelliannau a wnaed i'r prosesau cau eleni, nid ydym yn rhagweld y bydd yn rhaid i ni godi unrhyw ffioedd archwilio ychwanegol i dalu am amser ychwanegol sydd ei angen i wirio balansau yn y datganiad cyfrifon fel yr ydym wedi'i wneud mewn blynyddoedd blaenorol. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13, sef £163,600, fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir,

**Richard Harries**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-16, *Ymateb i'r Her*, sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn: www.npt.gov.uk/default.aspx?page=7667. Maent fel a ganlyn:

| Blaenoriaethau ar gyfer gwella 2012-2015 | Blaenoriaethau ar gyfer Gwella 2013-2016 |
|---|---|
| Mynediad i gyflogaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus. | Gwella canlyniadau i blant mewn angen a phlant sy'n derbyn gofal drwy wella perfformiad Adran Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc y Cyngor. |
| Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. | Codi safonau a chyrhaeddiad addysgol ar gyfer pob person ifanc. |
| Gwella perfformiad addysgol. | Cynyddu nifer yr oedolion a all fyw'n annibynnol gyda chymorth neu hebddo yn eu dewis gartref yn eu cymuned. |
| Helpu pobl hŷn ac oedolion sy'n agored i niwed. | Cefnogi canol ein trefi a'u cymunedau a buddsoddi ynddynt er mwyn hybu twf economaidd, gweithgarwch adfywio a chynaliadwyedd er mwyn cynyddu cyfleoedd swyddi a gwella mynediad i gyflogaeth. |
| Gwella'r amgylchedd lleol. | Cynyddu canran y gwastraff a gaiff ei ailgylchu a'i gompostio. |
| Adfywio canol ein trefi a'n cymunedau lleol. | Ei gwneud yn haws i gwsmeriaid/dinasyddion fanteisio ar wasanaethau a swyddogaethau a ddarperir gan y Cyngor, neu ar ran y Cyngor, a gwella effeithlonrwydd y gwasanaethau a'r swyddogaethau hynny. |
| Gwella iechyd a lles pobl Castell-nedd Port Talbot. | |

| Blaenoriaethau ar gyfer gwella 2012-2015 |
| --- |
| Cydweithio: gweithio gyda phartneriaid lleol ac awdurdodau lleol cyfagos er mwyn nodi cyfleoedd realistig y gellir eu cyflawni i wella’r modd y darperir gwasanaethau a/neu sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd drwy gydweithio. |
| Rheoli cyllid a gwasanaethau. |
| Ymgysylltu'n effeithiol â'n cymunedau. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o’i berfformiad yn ystod 2012-13, sef Adroddiad Blynyddol 2012-13, *Cyflawni’r Hyn sy’n Bwysig*, ar gael yn: www.npt.gov.uk/default.aspx?page=7668.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk